

Nodiadau i Drysorydd Clwb Ffermwyr Ifanc

Noder bod y flwyddyn ariannol yn mynd o 1af o Orffennaf i 30ain o Fehefin bob blwyddyn.

Y peth cyntaf i wneud ar ôl cael eich ethol yn Drysorydd bydd newid y llofnodion yn y banc. Dylai gwneud hyn yn yr haf fel bod popeth wedi ei glirio erbyn dechrau Medi. Dylai bod o leiaf 2 yn arwyddo pob siec - dewis o 4 os gallwch chi e.e. Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd ac Arweinydd (Arweinyddion efallai mewn clybiau ifanc) Dylai bod cyfrif cyfredol a chyfrif cadw gan bob clwb. Rhai gyda Clwb 200 ar wahân. Sicrhau bod “statement” o’r cyfrif cyfredol yn cael ei ddanfôn allan i’r Trysorydd bob mis.

Y peth cynta’ mis Medi bydd derbyn y ffurflenni aelodaeth. Mae’n bwysig bod pawb yn eu llenwi yn gywir. Mynd a llyfr nodiadau i’r clwb bob wythnos a rhoi lawr pwy sy’n talu beth yn syth. Derbyn arian aelodaeth (wedi ei benderfynu gyda’r clwb unigol) gyda’r ffurflen. Gwneud yn siŵr bod y swyddogion yn gwybod os oes cyflwr meddygol gan yr aelod. Danfon y ffurflenni aelodaeth i’r Swyddfa - dim angen talu nawr. Bydd y swyddfa yn danfon allan y cardiau aelodaeth gyda’r infois i’r trysorydd - i’w dalu o fewn y mis. Angen cadw’r infois a’i roi mewn ffeil yn saff gyda phob infois arall. Angen cadw cofnod beth yw rhif aelodaeth a dyddiad geni pob aelod cyn rhoi’r cardiau iddynt, gan wneud yn siŵr eu bod wedi talu’r clwb. **Noder – Sicrhewch bod pob aelod sy’n mynychu digwyddiad o’r Clwb yn aelodau – hanfodol bwysig er mwyn bod yr yswiriant yn eich diogelu. Mae’n bwysig bod pob aelod yn derbyn ei cerdyn aelodaeth yn syth ar ôl iddynt dalu’r aelodaeth.**

Beth sydd angen:-

Llyfr nodiadau i fynd i’r clwb

Llyfr Arian – byddwch yn cofnodi popeth yn hwn – popeth sydd yn dod mewn ac yn cael ei fancio a phopeth sy’n cael ei dalu – mewn colofnau (gweler y daflen)

Llyfr talu mewn i’r banc - cofnodwch tu ôl y styb beth yw’r arian. Cofiwch dalu’r arian i mewn yn rheolaidd - dim cadw gormod o arian adre.

Llyfr siec - Talwch bopeth gyda siec er mwyn cael tystiolaeth. Llanw’r styb yn llawn. Talu pob infois yn brydlon. Ar bob infois/bil y byddwch yn talu, nodwch rif y siec, y dyddiad a’r tâl cyn cadw’r infois mewn ffeil mewn trefn talu. Bob tro y byddwch yn derbyn “statement”, ticiwch bopeth off yn erbyn y llyfr siec a’r llyfr talu i mewn.

Diwedd blwyddyn

Bydd angen gwneud Datganiad Incwm a Gwariant a Mantolen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. (gweler yr esiamp!)

Holwch am “balance” o’r banc ar 30 Mehefin a rhoi llinell o dan y dyddiad yma ar y “statement”. **Pwysig** - Mae’n rhaid i hwn gael ei ddsbarthu i aelodau ac arweinyddion y clwb yn y Cyfarfod Blynnyddol. Dylai’r cyfrifon gael eu harchwilio gan rywun addas.

Mae edrych ar ôl arian rhywun arall yn waith cyfrifol iawn. Peidiwch fod ofn holi am help oddi wrth gyn-trysoryddion, aelodau hŷn neu arweinyddion eich clwb. Dim ond cael dipyn o **drefn**, bydd popeth yn cwmpo i’w le yn daclus!!